

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

<b>Teitl y cynnig:</b>	<b>Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru Drafft</b>
<b>Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):</b>	<b>Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol</b>
<b>Adran:</b>	<b>Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus</b>
<b>Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):</b>	<b>Ruth Conway, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymorth i Ddysgwyr</b>
<b>Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:</b>	<b>Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg</b>
<b>Dyddiad Dechrau:</b>	<b>10 Rhagfyr 2018</b>

# PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

## Cefndir

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â'r Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft ('y Rheoliadau Tribiwnlys drafft'), a wneir o dan adrannau 74(1), 75(1), 75(2), 75(4), 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018'). Fe'u cyhoeddwyd at ddibenion ymgynghoriad ar 10 Rhagfyr 2018; bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 22 Mawrth 2019.

Mae Deddf 2018 yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ('TAAAC') fel Tribiwnlys Addysg Cymru. Mae cylch gwaith y Tribiwnlys yn cael ei ymestyn i glywed apelau ADY yn erbyn cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach (SAB) yn ogystal ag yn erbyn awdurdodau lleol. Gall:

- wneud gorchmynion i awdurdodau lleol a SAB mewn perthynas ag apelau ADY;
- gwneud argymhellion i gyrff y GIG mewn perthynas ag apelau ADY; a
- phenodi 'cyfeillion achos' ar gyfer plant â diffyg galluedd.

Mae cylch gwaith y Tribiwnlys Addysg hefyd yn cynnwys clywed hawliadau'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>1</sup>.

Mae'r Rheoliadau Tribiwnlys drafft yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys'), cynnwys cychwyn apêl a'r achos sy'n dilyn. Maent yn amlinellu cyfansoddiad y Tribiwnlys hefyd.

Bwriedir cyflwyno'r Cod ADY a'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2019, gyda'r nod y bydd darpariaethau Deddf 2018 a'r rheoliadau yn cychwyn o fis Medi 2020, gyda chyfnod gweithredu o dair blynedd cyn iddynt ddod i rym yn llawn.

## Datblygu polisi

Mae'r Rheoliadau Tribiwnlys drafft wedi'u datblygu yng ngoleuni'r pum dull o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y bwriad yw byddant yn darparu sail **hirdymor** i system statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY, drwy:

---

<sup>1</sup> Pwerau a roddir o dan adran 207(4) ac Atodlen 17, paragraffau 6A, 6(1), (2), (3), (4), (5) a (7) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cadw'r system bresennol lle mae TAAAC yn clywed hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion.

- ddarparu prosesau a gweithdrefnau clir ac effeithiol yn ymwneud ag apelau a hawliadau, sy'n osgoi unrhyw oedi diangen wrth eu datrys; a
- darparu ar gyfer tribiwnlys sy'n gallu ymdrin ag achosion yn gymesur, yn deg ac yn gyfiawn, a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Mae'r gweithdrefnau a'r gofynion y mae'r Rheoliadau Tribiwnlys drafft yn cynnig eu cyflwyno yn canolbwyntio ar **atal** plant a phobl ifanc rhag colli cyfleoedd addysg a'r cyfle i wireddu eu potensial, drwy sicrhau eu bod yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer eu ADY mewn modd amserol ac effeithlon, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu ac elwa ar ddysgu.

Mae'r Rheoliadau Tribiwnlys drafft a'r Ddeddf 2018 maent yn ei hategu yn **integreiddio** gyda thema allweddol 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' yn *Ffyniant i Bawb* a gyda'r amcanion llesiant yn y thema allweddol honno a themâu eraill. Fe'u datblygwyd mewn **cydweithrediad** â'n partneriaid wrth gyflawni'r gweithdrefnau a gofynion arfaethedig, yn cynnwys TAAAC. Mae Rhaglen Drawsnewid wedi'i datblygu i sicrhau bod gan ein partneriaid y gallu a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i weithredu'r gweithdrefnau a'r gofynion.

Gan mai nhw sydd fod i elwa ar y system newydd o gymorth, rydym wedi ceisio **cynnwys** plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn y gwaith o ddatblygu system ADY drwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu. Byddwn yn gwneud hynny eto fel rhan o'r ymgynghoriad cyfredol ar y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau drafft.

### Effaith

Mae Deddf 2018<sup>2</sup> yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am:

- ddarparu apelau i'r Tribiwnlys Addysg o dan ran 2 o Ddeddf 2018 a'r weithdrefn ar gyfer yr apelau hynny;
- yr amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Tribiwnlys Addysg mewn perthynas ag argymhellion i gyrff y GIG mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf;
- cydymffurfio â gorchmynion a wneir gan y Tribiwnlys Addysg;
- rhieni a phobl ifanc â diffyg galluedd;
- cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd; a
- chyfansoddiad y Tribiwnlys Addysg.

Mae'r Rheoliadau Tribiwnlys drafft a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad yn nodi'r gweithdrefnau a'r gofynion yn ymwneud â'r materion a restrir uchod, ac eithrio rhieni a phobl ifanc â diffyg galluedd (gweler yr adran 'Rheoliadau arfaethedig' yn y ddogfen ymgynghori am esboniad).

Bwriad y gweithdrefnau a'r gofynion arfaethedig yn y Rheoliadau Tribiwnlys drafft yw sicrhau bod achosion y Tribiwnlys yn gweithredu'n hwylus ac yn effeithiol a bod plant a

---

<sup>2</sup> Pwerau a roddir o dan adrannau 70 (4), 74, 75, 76(3), 77, 83(2), 85(8), 91(6), 92(2) o'r Ddeddf.

phobl ifanc yn cael mynediad at y ddarpariaeth sydd ei hangen i gefnogi eu ADY. Yn arbennig, bwriedir i'r amserlenni arfaethedig yn y Rheoliadau Tribiwnlys drafft fod yn rhai y gall y partion dan sylw gadw atynt yn realistig, ac osgoi oedi di-angen yn y broses. Mae'r Rheoliadau Tribiwnlys drafft yn bwriadu cefnogi dau o brif amcanion Deddf 2018: creu system sy'n arwain at ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY; a darparu prosesau teg a thryloyw ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Fe'u datblygwyd yng nghyd-destun sut mae'r TAAAC cyfredol yn gweithredu, yn cynnwys y diffygion o safbwynt TAAAC a phartion yn achosion y Tribiwnlys. Bwriad y newidiadau i'r broses datganiadau achos yn arbennig yw sicrhau bod yr holl bartion yn achosion y Tribiwnlys a'r Tribiwnlys ei hun yn nodi'n glir y meysydd sy'n destun anghydfod (neu, yn wir, y meysydd y mae pawb yn gytûn yn eu cylch). Y bwriad yw galluogi'r Tribiwnlys i ymdrin ag achosion yn deg a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Gallai'r newidiadau arfaethedig roi cyfle hefyd i ymatebwyr ystyried ffyrdd eraill o ddatrys anghydfod neu setliad, a allai osgoi'r angen i achosion tribiwnlys barhau hyd at y gwrandawriad terfynol.

### Goblygiadau ariannol

Amlinellwyd goblygiadau ariannol y system newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf a'r is-ddeddfwriaeth ddilynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf<sup>3</sup>. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol penodol ar gyfer y Rheoliadau Tribiwnlys yn cael ei baratoi pan fydd y rheoliadau'n cael eu gosod

### Dull cyflenwi

Bydd y Cod ADY yn darparu'r canllawiau cynhwysfawr angenrheidiol i gyrff cyhoeddus ar eu swyddogaethau statudol mewn perthynas ag ADY, yn cynnwys yn rheini a nodir yn y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir oddi tani. Gan ei fod yn cyflwyno gofynion statudol ychwanegol hefyd, mae'n fath o is-ddeddfwriaeth ynddo'i hun. Mae'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi gwybodaeth a chynghor i awdurdodau lleol, SAB a chyrrff y GIG am brosesau a gweithdrefnau apelau, yn cynnwys am blant â diffyg galluedd a cheisiadau am gyfeillion achos (gweler Penodau 26 a 27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY).

---

<sup>3</sup> <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-memorandwm-esboniadol.pdf>

## CASGLIAD

### **Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â nifer o randdeiliaid yn cynnwys awdurdodau lleol (sy'n destun apelau fel rheol) a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd yr ymgynghoriadau hyn yn cynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol ac ymgynghori uniongyrchol drwy ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil drafft, wrth ymgynghori ar y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a chyn i'r Bil fynd drwy broses graffu'r Cynulliad,. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n uniongyrchol hefyd â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) er mwyn deall yn well sut bydd y rôl cyfaill achos newydd yn cynorthwyo plant â diffyg galluedd a'r ffordd orau o ymgysylltu â'r system ADY. Mae TAAAC wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o amlinellu'r heriau cyfredol o dan y system AAA, a sut gellir gwneud gwelliannau o dan y system newydd.

### **Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Effaith fwyaf arwyddocaol y rheoliadau arfaethedig fydd gwell hawliau dynol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

O dan y Ddeddf, bydd gan bob plentyn, ei rieni/gofalwyr, a phobl ifanc hyd at 25 oed yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach (SAB) mewn perthynas â'u ADY neu DDdY. Rhaid i blant a phobl ifanc gael mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol hefyd.

Bydd y cymorth ychwanegol y bydd plant yn ei gael gan gyfeillion achos yn ymestyn eu hawliau o dan y Ddeddf, a nod cyffredinol y Ddeddf yw gwella cyflawniad addysgol ledled Cymru. Bydd cael mynediad at y cymorth sydd ei angen i wireddu eu potensial yn dod yn haws ac yn llai gwrthwynebol i blant a phobl ifanc, gan greu cymdeithas decach a mwy tosturiol.

Bydd y gwelliannau hynny i addysg a dysgu yn arwain at Gymru fwy ffyniannus. Nid yn unig ein bod ni'n disgwyl i gyflawniad addysgol wella, ond gyda'r cymorth cywir, gallwn feithrin uchelgais ac annog dysgu gydol oes. Gall y cynigion hyn helpu i sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid, gan wella cydnerthedd y wlad a sicrhau poblogaeth fwy balch a hyderus.

### **Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Fel y nodwyd uchod, bydd y rheoliadau eu hunain yn helpu i gyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru; yn arbennig, Cymru ffyniannus, Cymru gydnerth, a Chymru fwy cyfartal. Yn fwy cyffredinol, mae'r Ddeddf ei hun yn canolbwyntio ar ddiwygio system sydd wedi dyddio sy'n gweithio'n dda i rai ond ddim yn diwallu anghenion pobl eraill. Bydd y Ddeddf yn gwella'r system bresennol ac yn cryfhau hawliau plant yng Nghymru.

Bydd y rheoliadau ar gyfeillion achos yn arbennig yn helpu i wella hawliau'r plentyn a helpu i hyrwyddo a chryfhau cydraddoldeb yng Nghymru drwy sicrhau bod plant â diffyg galluedd yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn y system newydd. Rhaid i gyfeillion achos sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu parchu pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu rhan, yn enwedig os yw'r plentyn yn mynd i'r tribiwnlys dros benderfyniad penodol.

Mae'r Cod ADY yn rhoi manylion a chanllawiau pellach er mwyn helpu i osgoi effeithiau a sefyllfaoedd negyddol a allai godi o dan y system newydd, fel y dyletswyddau ar awdurdodau lleol i osgoi a datrys anghydfodau. Dylai'r ffocws ar ddull cynhwysol o gynllunio darpariaeth ac ar osgoi anghydfod a'i ddatrys yn gynnar sicrhau nad oes cynnydd mewn apelau i'r Tribiwnlys o gymharu â'r system bresennol, er bod mwy o hawliau i apelio'n cael eu cyflwyno o dan Ddeddf 2018.

Bydd pontio i rôl newydd y Tribiwnlys Addysg a'i swyddogaethau o dan Ddeddf 2018, a'r rheoliadau Tribiwnlys drafft arfaethedig, a gweithredu'r rhain oll, yn gofyn am gryn waith paratoi ar ran TAAAC. Er mwyn galluogi'r gwaith paratoi hwn i fynd yn ei flaen, a lleihau unrhyw effaith niweidiol y gallai fod wedi'i chael fel arall, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi cyllid i TAAAC fel y gall wneud y trefniadau angenrheidiol i ddatblygu systemau a phrosesau, yn ogystal â chanllawiau a gwybodaeth ar gyfer y rheini a allai fod yn bartion mewn apelau a hawliadau. Mae'r cyllid hwn yn rhan o becyn buddsoddiad £20 miliwn Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen i Drawsnewid ADY.

### **Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd Tribiwnlys Addysg Cymru yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ac yn cynnal gwefan gyhoeddus. Bydd y wefan yn cynnwys ystadegau am achosion ac apelau hefyd. Bydd yr adroddiadau blynyddol yn rhoi manylion achosion ac apelau er mwyn galluogi dadansoddiad manwl. Fodd bynnag, oherwydd y rolau gwahanol fydd gan TAAAC o gymharu â'r Tribiwnlys newydd, ni fydd modd cymharu'r ddwy system. Ni fyddai'n briodol barnu llwyddiant y system newydd ar sail nifer yr achosion sy'n mynd i'r tribiwnlys yn unig chwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi pum Swyddog Arweiniol Trawsnewid ADY ac mae eu rôl yn cynnwys monitro ac adolygu trefniadau gweithredu yn ystod y cyfnod pontio.

Bydd adolygiad ôl-weithredu yn rhan o fodel monitro a gwerthuso cyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd y model yn ystyried y gwaith gweithredu fesul cam, fel a ganlyn:

- parodwydd – asesu i ba raddau mae asiantiaid cyflawni yn barod am y newidiadau;
- cydymffurfiaeth – monitro pa mor effeithiol mae sefydliadau'n cadw at y gofynion deddfwriaethol newydd ar ôl iddynt ddod i rym; ac

- effaith – gwerthuso i ba raddau mae newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi ehangach yn ennill eu plwyf a chael effaith ar ganlyniadau i ddysgwyr.

Bydd y gwaith hwn i fonitro a gwerthuso cydymffurfiaeth ac effaith yn cael ei ategu ymhellach gan drefniadau arolygu ac adolygu parhaus dan ofal Estyn.

## DATGANIAD

### Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Dirprwy Gyfarwyddwr:

Ruth Conway

Adran:

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad:

3 Rhagfyr 2018